



# GWASANAETH LLWYBR TEULUOL

# BARNARDO'S

MDFT



**Mae Gwasanaeth Llwybr Teuluol Casnewydd yn darparu Therapi Teuluol Amlddimensiwn (MDFT) fel rhan o'i dreial clinigol cyntaf yn y DU.**

**Mae MDFT yn helpu pobl ifanc i oresgyn heriau camddefnyddio sylweddau ac sydd mewn perygl o ymddygiad troseddol.**

**Beth yw Therapi Teuluol Amlddimensiwn?**

Mae MDFT yn gweithio gyda'r teulu cyfan, i geisio cryfhau perthnasoedd, mynd i'r afael â heriau, a chreu dyfodol mwy cadarnhaol.



BARNARDO'S CYMRU

# SUT MAE'N GWEITHIO?



Os byddwch chi'n cytuno i gymryd rhan yn y treial clinigol ac yn cael eich dewis ar gyfer y rhaglen, byddwch chi'n cwrdd â therapydd MDFT cyfeillgar a fydd yn gweithio i'ch deall chi a'ch teulu.

Yn ystod eich sesiynau, gallwch chi siarad gyda'ch gilydd fel grŵp neu gyfarfod yn unigol. Nid ar fai y mae'r sylw; ond ar wrando, deall a chydweithio fel tîm.

- **Ar gyfer pobl ifanc:** Rydyn ni'n eich helpu i ganfod beth sy'n digwydd, gwneud synnwyr o'ch meddyliau a'ch teimladau, a chynllunio ar gyfer dyfodol mwy cadarnhaol.
- **Ar gyfer rheini a gofalwyr:** Rydyn ni'n eich cefnogi i gryfhau eich perthynas â'ch plentyn a dod o hyd i ffyrdd o fagu plant yn hyderus, hyd yn oed yn ystod cyfnodau anodd.
- **Ar gyfer y teulu:** Gyda'n gilydd, byddwn ni'n datblygu dulliau cyfathrebu gwell ac yn datrys problemau fel bod llai o straen yn y cartref a bod mwy o gysylltiad rhwng pobl â'i gilydd.
- **Ar gyfer bywyd y tu allan i'r cartref:** Rydyn ni'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael cymorth ym mhob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys eu cymuned, eu hysgol, rhyngweithio cymdeithasol, a gwasanaethau eraill.

BARNARDO'S CYMRU

Bydd eich therapydd yn treulio llawer o amser yn dod i'ch adnabod chi a'ch teulu. Maen nhw'n gobeithio ennyn eich ymddiriedaeth a deall eich stori, eich gobeithion a'ch brwydrau.

Efallai y byddan nhw'n trefnu i'ch gweld chi neu eich rhieni/gofalwyr ychydig o weithiau'r wythnos. Byddan nhw’n ffonio ac yn anfon negeseuon yn rheolaidd.

Weithiau, byddwn ni’n trefnu cyfarfodydd teuluol mewn canolfan therapi neu ganolfan gymunedol ond byddwn hefyd yn cwrdd â chi
gartref, allan yn y gymuned, ar-lein neu'n eich cefnogi yn rhai o'ch cyfarfodydd pwysig, er enghraifft
yn yr ysgol.

## PRYD A BLE RYDYN NI'N CYFARFOD?



Mae MDFT wedi cymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil yn UDA ac ar draws Ewrop. Mae'r astudiaethau h yn yn dangos:

- Mae 93% o bobl ifanc yn cwblhau'r therapi.

- Mae pobl ifanc yn gwneud newidiadau cadarnhaol, fel cadw allan o drwbl neu ennill cymwysterau yn yr ysgol.

Prifysgol Caint sy’n arwain y treial clinigol yn y DU i werthuso pa mor effeithiol fydd yma.

## ALL HYN WEITHIO YMA YN Y DEYRNAS UNEDIG?

BARNARDO'S CYMRU

MDFT

# Contact Us

Newport Civic Centre
Godfrey Road
Newport
NP20 4PR

07593 685617

Team Manager
Cerys.cowan@barnardos.org.uk

https://www.barnardos.org.uk/get-support/services/bristol-family-route

BARNARDO'S CYMRU

MDFT®